# Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR) mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd
# **Adolygiad Blynyddol 2024**

Arwain DGC
Defnydd Gwrthficrobaidd Cyfrifol
Responsible Antimicrobial Use

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Sefydlwyd Grŵp Cyflawni Cymru ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR) mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd yn 2019 am dymor o bum mlynedd. Mae'r grŵp yn helpu i gynghori Llywodraeth Cymru a chynorthwyo i gyflawni gwaith ymwrthedd gwrthficrobaidd. Cefnogir y gwaith gan Arwain DGC (Defnydd Gwrthficrobaidd Cyfrifol) Cymru y mae ei waith yn cyfrannu at Gynllun Gweithredu Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd (2019-2024).**

## Cynnydd Rhwydwaith Cymru o Bencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol:

Cyfarfu rhwydwaith Cymru o Bencampwyr Presgripsiynu Milfeddygol (VPC) ym mis Mai gyda **30 o bractisau VPC** yn cael eu cynrychioli. Mae'r rhwydwaith VPC wedi cynhyrchu canllawiau awdurdodol ar gyfer atal chwech o glefydau cyffredin mewn gwartheg a defaid sy'n gyrru'r defnydd o wrthfiotigau, a thrin y clefydau hynny'n ddiogel. Mae'r rhain bellach yn cael eu defnyddio gan filfeddygfeydd ledled Cymru. Mae rhagor yn cael eu datblygu.



## Diddordeb Rhyngwladol mewn Prosiectau AMR a gyflawnir yng Nghymru

Mae **rheolaeth AMR yng Nghymru** yn parhau i ennyn diddordeb rhyngwladol eang. Eleni mae ein gwaith wedi'i gyflwyno yng nghynhadledd Defnydd a Stiwardiaeth Gwrthficrobaidd Ewrop yn Fienna ac i gydweithwyr o Lywodraeth Seland Newydd, Prifysgol Massey a Chyngor Milfeddygol Seland Newydd.

## Grwpiau Cyflawni Cymru ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid

Cefnogodd **Grŵp Cyflawni AMR Anifeiliaid a'r Amgylchedd** ddatblygiad Cynllun Gweithredu Cenedlaethol AMR newydd y DU (2024-2029) a chyfrannwyd eu syniadau
i wneud y cynllun yn berthnasol yng Nghymru. Mae'r grŵp bellach wedi cwblhau eu tymor pum mlynedd ac mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar am eu cymorth a'u cefnogaeth wrth lunio'r dull gweithredu ar gyfer Cymru. Cyfarfu olynydd y grŵp, **Grŵp AMR Iechyd Anifeiliaid Cymru**, am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr gyda llawer o aelodau'n parhau o'r grŵp gwreiddiol.

## AMR yn Sioe Frenhinol Cymru

Gyda chymorth **Llywodraeth Cymru cynhaliodd Arwain DGC** ddiwrnod llwyddiannus yn Sioe Frenhinol Cymru yn addysgu'r cyhoedd am AMR a'n gwaith. Ymwelodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig â'r stondin, a diolchodd am y dull gweithredu llwyddiannus sy'n cael ei gyflawni yng Nghymru.



## Prif Swyddog Milfeddygol yn mynychu Cynhadledd Flynyddol Arwain DGC



Mynychodd Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru **gynhadledd Arwain DGC** ym mis Mehefin, gan ddathlu'r cynnydd a wnaed wrth ddod o hyd i ffyrdd arloesol o fynd i'r afael ag AMR. Roedd milfeddygon, ffermwyr a chynrychiolwyr y llywodraeth yn bresennol yn y gynhadledd. Roedd y prif siaradwyr yn cynnwys Ben Davidson, Prif Swyddog Gweithredol Dairysmart Veterinarian (Seland Newydd), Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Casglu data AMU ar gyfer Gwartheg a Defaid

Mae Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru wedi cynhyrchu mwy na **6,000 o gyfrifiadau o ddefnydd gwrthficrobaidd** (AMU) newydd yn 2024. Maent hefyd wedi gwella platfform adrodd AMU gan ganiatáu i filfeddygon greu adroddiadau o AMU yn eu practisau.

## Samplu Amgylchedd Fferm (Monitro patrymau AMR)

Casglwyd dros **2,900 o samplau carthion** o ffermydd gwartheg a defaid Cymru i wirio am bresenoldeb *E. coli.* Mae samplau hefyd yn cael eu casglu o ddyfrffyrdd ger ffermydd llaeth a'u profi am bresenoldeb *E.coli*.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025 Llywodraeth Cymru, WG51182